

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository: <https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/143341/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Ifan, Elen 2021. Awen i Bawb: Barddoni yn yr oes ar-lein. O'r Pedwar Gwynt 16 (Summer) , pp. 9-11.

Publishers page: <https://pedwargwynt.cymru/dadansoddi/awen-i-bawb>

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



Democrateiddio'r awen yn yr oes ddigidol

Wedi dewis y lliw mwyaf addas ar gyfer cefndir y post diweddaraf, gwirio rhag unrhyw gamgymeriadau, ac arbed y llun o'r ap dylunio i'm ffôn, dyma agor Instagram. Yn ddiweddar, mi fydda i'n ysgrifennu nodyn esboniadol i gyd-fynd gyda fy ngwaith, yn hytrach na nodi'r teitl yn unig. Mae'r post yn gwneud ychydig yn well o'r herwydd. Tybed pam? Rhaid cofio'r hashnodau: *#cerdd #barddoniaeth #instagerdd*. Ac er mai cerdd Gymraeg sydd gen i heddiw, wneith hi ddim drwg i gynnwys rhai Saesneg chwaith, i ddenu ambell i *like* ychwanegol. *#poem #instapoem*. Barod i fynd. Unwaith i mi wasgu 'post', dwi'n cau'r ap. Troi nôl at fy mhaned, fy nghinio, fy ebyst, beth bynnag oedd ar ei hanner cyn i mi gofio fy mwriad i bostio heddiw. O fewn eiliadau mae'r ffôn yn fy llaw eto; o ddiddordeb, dwi'n dweud wrthyf fi fy hun, dim ond i weld os oes unrhyw ymateb. Er gwybodaeth yn unig. Ambell galon gan gyfrifon dienw, diberson sy'n hoffi popeth *#instapoem*, ond dim byd arall eto. Dechrau poeni: efallai ei bod hi'n rhy hir ers i mi bostio'r tro diwethaf, a bod yr algorithm heb ddangos fy ngwaith i fy nilynwyr. Gwell rhannu i'r stori i dynnu sylw. Wrth wyllo'r *likes* yn cynyddu, a'r dopamine yn cyrraedd fy ymennydd, dwi'n cofio: nid dyma pam dwi'n gwneud hyn.

Rhyddid creadigol oedd y rheswm i mi ddechrau'r cyfrif yn y lle cyntaf. Wedi chwarae â geiriau yn breifat am flynyddoedd, dilynais ddatblygiad barddoniaeth Instagram â diddordeb mawr. Dyma blatfform sy'n cael ei feirniadu am fod yn llawn *influencers* gordenau a ffilters sy'n prysur newid normau prydfferthwch. Ond, ym mysg y dylanwadau andwyol, mae yna gymuned greadigol sy'n cynhyrchu corff o waith gwreiddiol diddorol. Mae'n gyfrwng hynod boblogaidd: mae chwiliad *#poem* ar yr ap yn cynnig dros 20 miliwn o ganlyniadau. 'Democrateiddio'r awen' oedd Gwyn Thomas, yn ôl Gerwyn Williams, wrth iddo ddefnyddio barddoniaeth i drafod pethau cyffredin, bob-dydd ac ymgorffori'r cyfryngau poblogaidd yng nghynnwys a ffurf ei waith. Onid dyma'n union sydd wedi digwydd ar Instagram dros y blynyddoedd diwethaf? Mae gan y miliynau sy'n cyhoeddi drwy'r platfform hwnnw y rhyddid i ysgrifennu yn union fel y mynnant am ba bynnag bwnc sy'n mynd â'u bryd, heb boeni am ofynion y sefydliad llenyddol elitaidd na statws aruchel barddoniaeth. Does dim rhaid gofyn caniatâd, na chael eich derbyn gan olygydd cylchgrawn, i rannu ar y cyfryngau cymdeithasol, dim ond mynd ati'n uniongychol i greu post a'i gyhoeddi. Difyr yw meddwl beth fyddai ymateb Gwyn Thomas ei hun i'r mudiad hwn: digon posib y byddai yntau'n rhan o'r lluo o 'instafeirdd' sy'n ymfalchïo yng nghydraddoldeb creadigol y cyfrwng.

Un o sêr mwyaf adnabyddus *#instapoetry* yw Rupî Kaur. Mae gwaith y bardd Canadaidd a anwyd yn India yn hawdd i'w adnabod: llond llaw o linellau ar gefndir plaen, heb atalnodi na phriflythrennau. Mae'r arddull yn uniongyrchol, y pwnc fel arfer yn bersonol, ac yn aml fe geir darlun syml i gyd-fynd â'r farddoniaeth. Enghraifft enwog yw'r darn di-deitl, 'and here you are living/ despite it all', sy'n dwyn darlun o ffigur yn dal ei freichiau ei hun o'i gwmpas, dail yn ei wallt, at ei ganol mewn dŵr. Mae'r gerdd hon wedi'i rhannu droeon gan Kaur ar ei chyfrif Instagram (@rupikaur_), gan ddenu bron i ddau gan mil o *likes* ar bost o fis Ebrill 2021. Mae ei gwaith hefyd yn mynd i'r afael â'i hunaniaeth Asiaidd a phrofiad y mewnfudwr mewn darnau megis 'accent' (2017) a 'habit' (2020), ac mae'r ffaith ei bod mor adnabyddus mewn maes sydd yn hanesyddol (ac yn dal i fod) yn gyffredinol yn nodedig. Mae platfformau democrataidd y cyfryngau cymdeithasol yn gyfle, o bosib, i'r grwpiau hynny sydd heb lais mor gryf yn strwythurau cymdeithasol a diwylliannol y gorllewin i roi llwyfan iddyn nhw ei hunain.

Yn ddiddorol ddigon, mae Kaur yn osgoi crybwyll Instagram yn uniongyrchol yn adran fywgraffyddol ei gwefan, gan bwysleisio yn hytrach wrthodiadau gan gyhoeddwy'r a'i phenderfyniad i hunan-gyhoeddi ei chyfrif gyntaf, *milk and honey* (2015). Amhosib, fodd bynnag, fyddai dadlau nad oedd gan yr ap lluniau ddim i'w wneud â'i llwyddiant ysgubol. Mae'r hyn sy'n trosglwyddo'n llwyddiannus i'r cyfryngau cymdeithasol – cynnwys cryno, amserol a hynod '*relatable*' – wedi'i ymgorffori yn ei gwaith, er bod ambell ddarn yn darllen mwy fel brawddeg foel na darn o farddoniaeth. Er enghraifft, y darn di-deitl hwn o gyfrif *the sun and her flowers* (2017): 'never feel guilty for starting again'. Heb

os, mae ei harddull ddadleuol, nodweddiadol, wedi trawsnewid barddoniaeth boblogaidd a'r diwydiant o'i gwmpas. Bellach, mae ganddi dros 4 miliwn o ddilynwyr, tic glas, a thair cyfrol gyhoeddedig sydd wedi gwerthu miliynau o gopiâu ac wedi'u cyfieithu i 42 o ieithoedd. Heb ei phenderfyniad i rannu ei gwaith ar-lein, byddai ei henwogrwydd byd-eang yn amhosib: prin y gallai unrhyw un ddychmygu'r fath statws i fardd byw.

Gellid deall awydd Kaur ar ei gwefan i osod pellter rhwng ei gwaith hi a 'barddoniaeth Instagram' fel *genre*. Fel unrhyw ffurf lenyddol boblogaidd, nid yw heb ei feirniaid. 'Clichéd, banal, derivative, portentous, repetitive and manipulative' oedd barn Thomas Hodgkinson am y *genre* mewn erthygl yn y *Spectator* yn 2019, ac wrth bori drwy ddetholiad o'r 20 miliwn *#poem*, digon cyflym y daw rhywun i weld mai cymysg iawn yw safon yr hyn sy'n cael ei rannu. Er bod sawl darn o waith ystyrlon, crefftus a beiddgar i'w gael ym mysg y miliynau, nid popeth sy'n waith gwreiddiol, o bell ffordd (â'r gydnabyddiaeth yn anghyson). Mae lluo o bytiau byrion sy'n ymdebygu'n fwy i ddyfyniad ysbrydoledig na cherdd, yn aml ar gefndir cymylau pinc neu awyr y nos; eraill mewn llawysgrifen. Mae dyluniad, wrth gwrs, yn rhan bwysig o'r ffurf ei hun, a nifer o unigolion yn cefnogi cynnwys eu darnau'n gysyniadol drwy gyfrwng ymddangosiad y gwaith. Y mae hefyd yn fodd o ddenu llygad y sgroliwr difeddwl, ac ambell ddilynydd newydd. Mae'r *genre* hefyd yn gwahodd parodi, fel yn achos Harry Mitchell ar trydar (@HarryIsLate), a luniodd instagerddi o'r hyn mae ei bartner yn ei ddweud yn ei chwsg. Mae awduron eraill yn troedio'r ffin rhwng gwawdio a hunan-feirniadaeth, drwy dynnu hwyll am ben y ffurf wrth greu ynddi. Fel y dywed Daniel Piper (@dantepapier) mewn post Instagram sydd wedi'i ysgrifennu mewn ffont teipiatur, 'nobody/ will realise/ you're a shite writer // if your poetry/ is in a font/ like a typewriter' (2019). Mae tueddiadau a phatrymau i'w gweld yn y *genre*, ac ni ellir gwadu nad yw nifer yn ddim mwy nag efelychiadau digon di-gelfyddyd o waith unigolion llwyddiannus: yn arddel y math o wireddau noeth sy'n gyffredin i waith r. m. drake, er enghraifft, neu'n dwyn yr un math o ddarluniau â gwaith Rupri Kaur. Wedi dweud hynny, mae natur y cyfrwng yn caniatáu i unrhywun sy'n ei adnabod ei hun fel bardd wneud hynny'n gyhoeddus, ac yn cynnig gofod democrataidd i arbrofi. Efallai bod y bygythiad ymddangosiadol i safon a statws crefft yn peri gofid i ambell feirniad, ond mae eraill yn ei weld fel '*gateway drug*' i farddoniaeth yn fwy cyffredinol. Oes, mae ymysg cyhoeddiadau instafarddoniaeth ddigon i'w feirniadu a'i barodio, ond mae yno hefyd gynulleidfa eang sy'n datblygu diddordeb organig mewn barddoniaeth fel cyfrwng, a diau bod hynny'n rhywbeth i'w ddathlu.

Gellir cysylltu'r twf cyffredinol ym mhoblogrwydd barddoniaeth yn y blynyddoedd diwethaf â'r ffaith ei bod, bellach, yn rhan o fywyd ar-lein miliynau o bobl wrth iddyn nhw sgrolio drwy eu apiau, ac yn cael ei defnyddio fel cyfrwng naturiol i fynegi realiti byw yn y byd sydd ohoni. Nid aruchedd a phrydferthwch iaith sy'n diddordi'r to newydd hwn o awduron, ond egrwch anniben yr unfed ganrif ar hugain. Mae Catherine Cohen, er enghraifft, yn defnyddio teitlau esboniadol i gyfeirio'n eglur at amgylchiadau cyfansoddi ei cherddi, gan ddwyn i gof y cyflwr gor-ymwybodol gor-onest mae'r oes ddigidol yn ei feithrin: 'poem I wrote after my therapist got mad at me for thinking everyone is mad at me'; 'poem I wrote after I made you tell me I was sexy four times today'; 'poem I wrote after I went to Tuscany to journal about my toxic guitar teacher'. 'going swimming is an amazing way/ to stop being on your phone', meddai, yn llinellau agoriadol yr olaf. Mae teitl ei chasgliad yr un mor ymwybodol: *God I Feel Modern Tonight* (2021). Yma yng Nghymru, mae Llio Elain Maddocks wedi cyhoeddi'r pamffled *Stwff Ma Hogia 'Di Ddeud Wrtha Fi* (2021), cyfres o gerddi byrion a beiddgar sy'n ymateb yn ddi-flewyn-ar-dafod i sylwadau mae'r bardd wedi'u derbyn gan ddynion. 'Waw, dyna syndod/ mod i'n troi'n hyll/ ar ôl dy wrthod', meddai, yn "Ti'n hyll eniwe", cerdd sy'n nodweddiadol nid yn unig o waith Maddocks, ond hefyd o *genre* instagerddi yn fwy cyffredinol gyda'i naws uniongyrchol a'r darlun o law yn dangos bys canol i'r sawl sy'n cael eu cyfarch gan y gwaith. Cyhoeddwyd nifer o'r cerddi yn y pamffled ar Instagram yn wreiddiol, wedi'u casglu ynghyd dan yr hashnod *#cerddillio*.

Mae dylanwad y cyfryngau cymdeithasol i'w weld nid yn unig ar arddull a phynciau barddoniaeth ddiweddar, ond ar y modd y caiff ei chyflwyno, ei dylunio a'i marchnata. Ar glawr cyfrol Cohen, fe'i darlunnir yn dal ei ffôn symudol sy'n llawn negesuon ar y sgrîn. Er mai cyhoeddiad papur yw casgliad Maddocks, mae hunaniaeth ar-lein y cerddi yn amlwg: mae'r llyfryn yn sgwâr, fel post Instagram, a'r clawr yn cynnwys darluniau o'r eiconau calon, swigen sgwrs ac awyren bapur sy'n gyfarwydd i bawb sydd wedi treulio amser ar y cyfryngau cymdeithasol. Lansiwyd casgliad Maddocks ar Instagram Live ym mis Mai 2021 gyda 'noson o farddoniaeth'. Yn yr un modd, roedd darlenniadau ar Instagram Live yn rhan bwysig o farchnata *Slug* (2021), cyfrol farddoniaeth ddiweddaraf Hollie McNish. Roedd y bardd yn darllen ei gwaith yn fyw ac yn ymateb i sylwadau a chwestiynau, gan greu cysylltiad uniongyrchol rhwng McNish a'i chynulleidfia – a chan gyfrannu, o bosib, at safle'r gyfrol ar restr gwerthwyr gorau y *Sunday Times* yn wythnos ei chyhoeddi.

Creu a chynnal cysylltiadau yw un o ddibenion y cyfryngau cymdeithasol, ac fe welir hyn yn eglur yn y cymunedau digidol sydd mor gyffredin ar-lein. Beth bynnag fo'ch diddordeb, waeth pa mor ymylol ac anarferol, mae yna hashnod ar ei gyfer. Mae cymunedau digidol yn cynnig cynulleidfia barod i waith o *genre* penodol, gan roi ymdeimlad i unigolyn o fod yn rhan o rywbeth ehangach. I sawl artist, mae'r profiad o fod yn un ymhlith nifer o insta-feirdd neu insta-artistiaid yn cynnig rhyddid gwirioneddol, gan esgor ar ddiwylliedd creadigol a mwy o gyfle i arbrofi. Gellir bod yn gyfan gwbl ddiennw, os hoffer: dewis enw cyfrif digon annelwig, a mynd rhagddi i rannu gwaith. Yn nofel Megan Angharad Hunter, *tu ôl i'r awyr* (2020), mae un o'r prif gymeriadau, Deian, yn rhannu ei waith celf ar ei gyfrif @d.celf. Wrth i'r nofel fynd rhagddi a brwydrau Deian gyda'i iechyd meddwl ddwysáu, mae ei dawelwch ar-lein yn adlewyrchu'r diffyg hyder sydd ganddo ynddo ef ei hun, hyd yn oed i rannu'n ddiennw. I mi fel @ystlum, bu'r cyfle i gyhoeddi ar Instagram yn ddiennw yn fodd i rannu syniadau y byddwn i wedi'u tymheru pe bai fy enw ynghlwm wrth y gwaith, ac roedd y gallu a roddodd i mi rannu'n ddiymatal yn rymus ar sawl cyfrif. Er nad yw fy ngwaith wedi newid yn sylfaenol ers i'r llen raddol godi ar fy *alter-ego* barddol, mae'n sicr yn cymryd mwy o hyder i dapio 'post' ar unrhyw ddarn bellach. I Llinos Anwyl, sy'n gyfrifol am y cyfrif celf @henbapurnewydd ar Instagram a @henbapur ar trydar, mae'r penderfyniad i ddatgelu ei henw yn un y mae hi'n ei ddifaru rhywfaint, fel y dywedodd ar y podlediad *Gwrachod Heddiw* (2021): wrth wybod enw artist, meddai, mae'n amhosib gwahanu'r gwaith wrth yr unigolyn sydd wedi'i greu, ac fe deimla bod rhywfaint o'r rhyddid oedd ganddi i ddweud beth bynnag y mynn wedi'i golli.

Mae'r cyfryngau digidol yn cynnig rhyddid creadigol mewn ffordd arall hefyd: sef y modd y maent yn caniatáu arbrofi gyda ffurf a chynnig y cyfle i greu cyhoeddiad celfyddydol byw sy'n gwahodd ymateb a datblygiad deinamig. Mae *Creiriau* (2021) gan Gwasg Pelydr yn brosiect rhyngweithiol cyffrous: 'labyrinth celfyddydol' ar-lein lle mae pob darn o waith yn arwain at sawl trywydd, sydd yn eu tro yn arwain at ddarnau gwahanol eto. Y gynulleidfia sy'n dewis y llwybr drwy'r cyfraniadau aml-gyfrwng, sy'n newid gan ddiybennu ar ba adran o'r darn cyntaf sy'n cael ei glicio. Er nad prosiect sy'n byw ar y cyfryngau cymdeithasol yw hwn, maent yn rhan o'i fodolaeth: cynhaliwyd ymgyrch hyrwyddo ar trydar ac Instagram i ennyn diddordeb cyn lansio, gwelwyd cryn drafod ar trydar ynghylch y prosiect, ac ar y platfformau hyn hefyd y mae'r galwadau am gyfraniadau. O fewn dyddiau i'r lansaid ym mis Mai 2021, cyhoeddodd y wasg ar trydar ac Instagram bod nifer o gyfraniadau newydd wedi dod i law. Yn yr achos hwn, felly, mae'r cyfryngau cymdeithasol yn fodd o fwydo a chynnal prosiect arbrofol ar-lein. Braf yw gweld y fath arbrofi drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r gwahoddiad agored i ymateb a chyfrannu mewn sawl cyfrwng, gan gynnwys darnau ysgrifenedig, ffotograffiaeth, cerddoriaeth, gif neu gêm fideo. Dyma ddemocratieddio'r awen ymhellach fyth, drwy fanteisio ar botensial y gofod digidol i'r eithaf.

Ynghyd â'r hyblygrwydd celfyddydol y mae'r cyfryngau digidol yn eu cynnig, rhaid hefyd ofyn i ba raddau y mae cyfrwng yn dylanwadu ar ddarn o waith. Ymhle y mae'r ffin rhwng cyhoeddi ar blatfform penodol, ac addasu'r weledigaeth greadigol wreiddiol at ofynion y platfform hwnnw? Dyma gwestiwn ehangach, wrth gwrs, ond mae'n ystyriaeth hollbwysig wrth feddwl am oblygiadau

creu ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Yn ei hysgrif 'How Do We Write Now?' (2018), a'i nofel *No One Is Talking About This* (2021), mae Patricia Lockwood yn cwestiynu beth yw hi i fyw yn yr oes ar-lein, lle mae modd cael mynediad unionsyth at unrhyw ddarn o wybodaeth y mynner. Sut mae rhywun yn stopio sgrilio'n ddigon hir i wneud rhywbeth o werth? Mae syth-bin-rwydd y cyfryngau cymdeithasol hefyd yn ein hannog i gyfrannu at y sgwrs cyn i bawb symud ymlaen. Dywed prif gymeriad y nofel y byddai hi unwaith wedi ysgrifennu erthygl ar bwnc o bwys, ond bellach yn cyfrannu dim mwy na brawddeg neu ddwy ar 'the portal' (ymgorfforiad y nofel o wefan trydar). Wrth feddwl am y newidiadau cyson i'r fforwm drafod gyhoeddus a'i ffurf gyfredol, gofynna: 'Why were we all writing like this now? Because [...] it was the way the portal wrote'. Mae'r sylw yn ein hatgoffa o'r feirniadaeth o farddoniaeth Instagram, sy'n honni mai dim mwy nag efelychiadau diddychymygydd sydd i'w cael dan hashnod #instapoetry, copïau fformiwlâig gan unigolion sy'n ysgrifennu yn y modd y mae'r cyfrwng yn mynnu. Mae'r darlun yn fwy cymhleth na hynny, fel y gwelwyd, ond yn sicr mae gweithiau o'r math yn bodoli. Mae 'portal' Instagram yn cael effaith ar y farddoniaeth sy'n cael ei chreu ar ei gyfer mewn ffordd arall hefyd, gan y cyfyngir hyd unrhyw ddarn i beth bynnag all gael ei ddarllen yn hwylus mewn sgwâr lled sgrîn ffôn. Mae'r ffurf gryno hon yn adlewyrchu'r modd ry'n ni bellach yn gyfarwydd â derbyn gwybodaeth – yn ddarniog a phytiog mewn rhes dderfyn o byst – gan weddu i'n diffyg gallu, erbyn hyn, i ganolbwyntio ar un peth am gyfnod rhy hir.

Ni cheir sicrwydd y bydd pawb yn gweld y darn a gaiff ei rannu, chwaith: mae ffactorau dirifedi yn gallu cael effaith ar 'lwyddiant' unrhyw bost unigol. Mae blaenoriaeth safle'r post yn *feed* cartref dilynwyr yn newidiol ac yn ddibynnol ar weithgarwch y cyfrif sy'n postio, nifer y bobl sy'n rhyngweithio gyda physt y cyfrif yn gyffredinol, faint o'r gloch yw hi, faint o hashnodau sydd ar y post, a faint o ddilynwyr sydd gan y cyfrif at ei gilydd, ymysg llwyth o elfennau eraill. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ein hannog i fesur llwyddiant yn feintiol: i edrych ar nifer y dilynwyr, nifer y *likes*, nifer y sylwadau. Digon posib i'r dyhead am gynnal niferoedd droi'n obsesiwn, gan roi pwysau diangen ar unigolyn i gynhyrchu gwaith yn ddigon cyson i geisio bodloni'r algorithm. Daw hyn â ni'n ôl at safon amrywiol instagerddi: o deimlo bod yn rhaid postio'n aml, mae'n bosib y bydd unigolyn yn cael eu temtio i gyhoeddi darn anorffenedig, neu hyd yn oed ddarn sâl, er mwyn cadw'u cyfrif yn boblogaidd. Mae perthynas yr artist â'u cynulleidfa yn agosach nag erioed o'r blaen ar y cyfryngau cymdeithasol, ac er bod addasu ac ymateb i ddarllenwyr yn agwedd gyffredin ar greu a chyhoeddi gwaith mewn unrhyw gyfrwng, mae'n bosib o adborth plaen *likes* a sylwadau effeithio'n fwy uniongyrchol ar waith unigolyn, gan lywio penderfyniadau creadigol yn ôl yr hyn sy'n denu'r rhifau gorau.

Er mai'r awdur gwreiddiol sy'n dal i berchen yr hyn sy'n cael ei rannu ar gyfrwng fel Instagram, mae gan berchnogion y cyfrwng yr hawl i wneud fel y mynnant gyda'r cynnwys hwnnw. Mae i'w weld yn y gêm barhaol i ymddangos ar sgriniau'r dilynwyr, wrth i'r cyfrwng geisio dyfalu beth fyddai o ddiddordeb mwyaf iddynt. Ond mae'r pŵer yn fwy na hynny hefyd: gall unrhyw ddarn gael ei ddileu, os yw'n cael ei bennu i fod y tu hwnt i ganllawiau ymddygiad y plattform. Y bwriad, meddai'r cyfryngau, yw gwarchod defnyddwyr rhag gweld deunydd graffig neu dreisgar. I artistiaid ac ymgyrchwyr, mae'n amharu ar hawliau rhyddid i lefaru ac yn annheg ei fethodoleg. Cyn i'r byd adnabod enw Rupri Kaur am ei barddoniaeth, cafodd llun a ranodd yn 2015 fel rhan o'i chyfres ffotograffiaeth 'Period' ei ddileu gan Instagram, a hwnnw'n lun o Kaur ei hun yn gorwedd ar ei gwely yn ei dillad, a gwaed ei mislif i'w weld yn glir ar ei throwsus a'r dillad gwely. Yn y pen draw, wedi ymgyrchu a derbyn sylw yn y newyddion, cafodd y llun ei ailosod, ond mae achosion fel hyn yn dangos mai rhyddid amodol yn unig yw'r rhyddid celfyddydol y mae nifer yn ei gysylltu gyda'r cyfryngau cymdeithasol.

Wrth weithredu fel plattform i gyhoeddi gwaith creadigol, felly, ai 'democrateiddio'r awen' a wna'r cyfryngau cymdeithasol mewn gwirionedd? Neu ai dim mwy na chartref diweddaraf cyfalafiaeth sydd yma? Wedi'r cyfan, yn oes y *side hustle*, gall unrhywbeth fod yn fusnes; mae pob post ar y cyfryngau cymdeithasol yn fodd o atgyfnerthu'r brand personol a chyrraedd mwy o ddilynwyr, gyda

miliynau o *influencers* yn gwneud cyfran o'u helw drwy gyfrwng eu presenoldeb ar-lein. Ond efallai mai rhywbeth amgen ydyw mewn gwirionedd: rhyw drydydd peth sy'n bodoli rhwng y ddau begwn hyn. Oes, mae cwestiynau'n dal i lechu am effaith y platfformau hyn ar farddoniaeth boblogaidd (a'r gelfyddyd yn ehanagach) – ei ffurf, ei natur a'i chynnwys – ac am sut mae cymhlethdodau'r algorithm a'r *likes* yn gallu cymylu agwedd rhywun tuag at y broses greadigol. Ar y llaw arall, mae'n bwysig cydnabod y modd y mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi rhoi (ac yn dal i roi) llwyfan i leisiau ymylol, wedi galluogi arbrofi a didwylledd creadigol i sawl un, ac wedi codi proffil barddoniaeth yn aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf. Beth yw hyn mewn gwirionedd onid tystiolaeth o awen ddemocrataidd newydd?

Llyfryddiaeth:

Catherine Cohen. 2021. *God I Feel Modern Tonight*. Knopf.

Thomas Hodgkinson. 2019. 'Instapoetry may be popular, but most of it is terrible'. *The Spectator* [<https://www.spectator.co.uk/article/-instapoetry-may-be-popular-but-most-of-it-is-terrible>].

Megan Angharad Hunter. 2020. *tu ôl i'r awyr*. Y Lolfa.

Rupi Kaur. 2015. *milk and honey*. Andrews McMeel Publishing.

- 2017. *the sun and her flowers*. Simon & Schuster.

- 2020. *home body*. Simon & Schuster.

Patricia Lockwood. 2018. 'How Do We Write Now?'. *Tin House* [<https://tinhouse.com/how-do-we-write-now/>].

- 2021. *No One Is Talking About This*. Bloomsbury.

Llio Maddocks. 2021. *Stwff Ma Hogia 'Di Ddeud Wrtha Fi*. Cyhoeddiadau'r Stamp.

Hollie McNish. 2021. *Slug*. Fleet.

Gerwyn Williams. 2007. 'Yr Ianci o'r Blaenau: Golwg ar Gerddi Gwyn Thomas 1962-81'. Yn: Jason Walford Davies (gol.). *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged yr Athro Gwyn Thomas*. Barddas.

Cyfrifon (Instagram oni nodir yn wahanol):

@catccohen (Catherine Cohen)

@dantepapier (Daniel Piper)

@HarryIsLate (Harry Mitchell) [trydar]

@henbapurnewydd / @henbapur [trydar] (Llinos Anwyl)

@holliepoetry (Hollie McNish)

@lloielain (Llio Elain Maddocks)

@rmdrk (r. m. drake)

@rupikaur_ (Rupi Kaur)

@ystlum (Elen Ifan)